ADRODDIAD BLYNYDDOL

PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

2001 - 2002

Cynnwys

1. Rhagarweiniad

2. Cylch Gwaith y Pwyllgor

3. Rhaglen Waith a Gweithgareddau

- Cwynion a Gyfeiriwyd at y Pwyllgor
- Yr Ymgynghorydd Annibynnol
- Y Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau
- Buddiannau Anuniongyrchol
- Datganiadau Llafar o Fuddiant
- Aelodaeth o'r Seiri Rhyddion
- Yr Adolygiad o Weithdrefnau Safonau Ymddygiad
- Materion Eraill

4. Casgliadau'r Pwyllgor ar fater Safonau Moesegol (Rheol Sefydlog 16.1(v))

Atodiadau

Atodiad A: Cylch gorchwyl y Pwyllgor
Atodiad B: Adroddiadau ar Gwynion

Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD

ADRODDIAD I'R CYNULLIAD

1. Rhagarweiniad

1.1 Dyma drydydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 16. Mae'n ymdrin â'r cyfnod o 12 mis rhwng 1 Awst 2001 a 31 Gorffennaf 2002.

1.2 Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn un o chwe Phwyllgor Sefydlog y Cynulliad. Cadeirydd y Pwyllgor yw David Melding AC, ac yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ef, aelodau'r pwyllgor oedd Eleanor Burnham AC (tan 31 Ionawr 2002), Cynog Dafis AC, Janice Gregory AC (tan 27 Tachwedd 2001), Christine Gwyther AC, Brian Hancock AC, Gareth Jones AC, Lynne Neagle AC (o 27 Tachwedd 2001), Karen Sinclair AC, Gwenda Thomas AC a Kirsty Williams AC (o 31 Ionawr 2002).

1.3 Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i Eleanor Burnham AC a Janice Gregory AC am eu cyfraniad i'w waith yn ystod y cyfnod yr oeddent yn aelodau ohono.

1.4 Yn ystod ei drydedd flwyddyn, cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith, gan ystyried un gŵyn yn erbyn Aelod o'r Cynulliad. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, cynhaliwyd y cyfarfodydd yn gyhoeddus, gyda chaniatâd i'w darlledu - ac eithrio gwrandawiad llafar y gŵyn, a gynhaliwyd yn breifat ar ddiwedd cyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2001.

1.5 Isod, ceir amlinelliad o raglen waith y Pwyllgor a'i weithgareddau yn ystod y flwyddyn.

2. Cylch Gwaith y Pwyllgor

2.1 Mae Rheol Sefydlog 16 yn pennu cylch gwaith y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, yn ogystal â'r gofynion o ran ei aelodaeth, ei gyfarfodydd, ei adroddiadau, a rôl yr Ymgynghorydd Annibynnol ar Safonau Ymddygiad. Ceir copi o Reol Sefydlog 16 yn Atodiad A.

2.2 Swyddogaeth allweddol y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yw ystyried cwynion a gyfeirir ato gan y Llywydd ac unrhyw fater o egwyddor sy'n ymwneud ag ymddygiad cyffredinol Aelodau'r Cynulliad. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio'r Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau.

3. Rhaglen Waith a Gweithgareddau

3.1 Er mai dim ond un gŵyn a gyfeiriwyd at y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, roedd llwyth gwaith y Pwyllgor yn drwm. Ystyriwyd nifer o faterion pwysig yn ystod y flwyddyn.

Cwynion a Gyfeiriwyd at y Pwyllgor

3.2 Mae Rheol Sefydlog 16 yn cyfyngu ar bwerau archwilio'r Pwyllgor i gwynion a gyfeiriwyd ato gan y Llywydd. Rhwng 1 Awst 2001 a 31 Gorffennaf 2002, dim ond un gŵyn a gyfeiriwyd at y Pwyllgor. Roedd yn ymwneud ag achos o dorri Cod Ymddygiad Aelodau'r Cynulliad, a chynhaliwyd y gŵyn gan y Pwyllgor. Cyhoeddwyd copi o adroddiad y Pwyllgor ar y Fewnrwyd a'r Rhyngrwyd yn dilyn yr archwiliad, a cheir copi pellach yn Atodiad B.

Yr Ymgynghorydd Annibynnol

3.3 Ar 15 Mawrth 2000 penodwyd Mr Richard Penn yn Ymgynghorydd Annibynnol i'r Cynulliad ar Safonau Ymddygiad. Mae Rheol Sefydlog 16.3 yn ei gwneud yn ofynnol iddo weithredu fel ymgynghorydd annibynnol i'r Llywydd ar faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau'r Cynulliad, a thrwy wahoddiad, i gynorthwyo'r Pwyllgor â'i archwiliadau. Mae Mr Penn wedi bod yn weithgar yn y ddau rôl, a hoffai'r Pwyllgor ddiolch iddo am ei gyfraniad at ei waith.

Y Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau

3.4 Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd a chyhoeddwyd y Gofrestr gan y Swyddfa Gyflwyno yn unol â'r canllawiau cyhoeddedig a'r Rheolau Sefydlog. Ceir adroddiad ar y Gofrestr ar Fewnrwyd a Rhyngrwyd y Cynulliad, sy'n rhoi darlun cynhwysfawr o'r holl gofnodion a wnaed yn y Gofrestr. Bellach, caiff yr adroddiad ei diweddaru fel y derbynnir cofnodion newydd, gan ddisodli'r diweddariadau chwarterol a gyhoeddwyd cynt. Mae Clerc y Pwyllgor hefyd yn darparu'r newyddion diweddaraf ynghylch datblygiadau'r Gofrestr yn llafar yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

3.5 Mae nawr yn bosibl nodi nifer y bobl sy'n ymweld â thudalen y Gofrestr ar wefan y Cynulliad. Nid yw ffigurau llawn am y flwyddyn ar gael eto ond mae'r wybodaeth sydd ar gael yn awgrymu bod cyfartaledd o dros 600 o bobl yn ymweld â'r dudalen bob mis. Mae'r Swyddfa Gyflwyno yn dal i

dderbyn nifer o ymholiadau ynghylch buddiannau Aelodau unigol a'r Aelodau gyda'i gilydd. Ar y cyfan, mae'r ymholiadau yn dod oddi wrth aelodau'r cyhoedd a'r wasg.

Buddiannau Anuniongyrchol

3.6 Ym mis Rhagfyr 2001, cwblhaodd y Pwyllgor ei adolygiad o drefniadau cofrestru a datgan "buddiannau anuniongyrchol" yr Aelodau.

3.7 Roedd y Pwyllgor wedi sylwi ar orgyffwrdd rhwng y buddiannau a nodir yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 4 (sy'n gysylltiedig â throseddau o dan Adran 72 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998), a'r buddiannau a nodir ym Mhenderfyniad y Cynulliad ar 19 Mai 1999 (nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw drosedd).

3.8 Casgliad yr adolygiad oedd y dylid diwygio'r Atodiad i Reol Sefydlog 4 er mwyn cynnwys y darpariaethau hynny a oedd gynt yn cael eu galw'n 'fuddiannau anuniongyrchol'. Yn ymarferol, byddai'r rhain wedyn yn dod yn fuddiannau uniongyrchol, a byddai'r term 'buddiannau anuniongyrchol' yn darfod.

3.9 Byddai categorïau'r buddiannau i'w cynnwys yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 4 hefyd yn cael eu hymestyn i gynnwys buddiannau partner neu blentyn dibynnol (fel y'u nodwyd ym Mhenderfyniad y Cynulliad ar 19 Mai 1999). Gan y byddent yn cael eu cynnwys yn y Rheolau Sefydlog, byddai hyn yn gofyn am ddiffiniad mwy cadarn o 'blentyn dibynnol' a 'phartner', oherwydd y troseddau sy'n gysylltiedig â pheidio a chofrestru a datgan y fath fuddiannau.

3.10 Cymeradwyodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad gasgliadau'r Pwyllgor, ac fe'u mabwysiadwyd gan y Cynulliad ar 5 Chwefror 2002.

Datganiadau Llafar o Fuddiant

3.11 Mae rhai wedi mynegi pryder ynghylch y trefniadau presennol ar gyfer datgan buddiannau yn y Cyfarfod Llawn (a'r Pwyllgorau). Mae rhai o'r farn nad yw'r Aelodau yn deall y trefniadau hyn yn llwyr, ac y gallant gael effaith andwyol ar urddas y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn.

3.12 Yng ngoleuni hyn, a chan weithredu ar gyngor yr Ysgrifenyddiaeth a chynghorydd cyfreithiol y Llywydd, sef David Lambert, ystyriodd y Pwyllgor a ellid symleiddio'r trefniadau er mwyn osgoi tarfu ar y Cyfarfod Llawn, tra'n cynnal uniondeb a chywirdeb y trefniadau presennol.

3.13 O edrych unwaith eto ar Adran 72 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, daeth y Pwyllgor i'r casgliad y gallai gofynion presennol y Cynulliad fod yn talu gormod o sylw i Adran 72(1) (cofrestru buddiannau), a dim digon o sylw i Adran 72(2) (datgan buddiannau - yn enwedig buddiannau ariannol).

3.14 Er mwyn cywiro hynny, mae'r Pwyllgor wedi cynnig gwelliannau i'r Rheolau Sefydlog, a fydd yn ei farn ef yn gliriach ac yn symlach, ac a fydd yn cynnal y safonau llym presennol heb fod yn llai tryloyw. Bydd hyn yn tynnu sylw'r Aelodau a'r cyhoedd unwaith eto at bwysigrwydd y Gofrestr o Fuddiannau, a bydd yn tarfu llai ar y Cyfarfodydd Llawn.

3.15 Byddai'r holl fuddiannau cofrestradwy presennol yn parhau, ac ni fyddai hyn yn effeithio ar eu statws. Byddai'n dal yn ofynnol i'r Aelodau i gofrestru'r buddiannau a nodir yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 4, a byddent yn dal yn troseddu petaent yn cymryd rhan mewn trafodion heb gofrestru buddiant.

3.16 Bydd y gwelliannau arfaethedig yn dod gerbron y Cynulliad yn ystod yr hydref.

<u>Aelodaeth o'r Seiri Rhyddion</u>

3.17 Mae'r Pwyllgor wedi ystyried gofyniad y Cynulliad i'r Aelodau gofrestru eu bod yn aelodau o'r Seiri Rhyddion bedair gwaith, ac mae wedi derbyn tystiolaeth uniongyrchol oddi wrth gynrychiolwyr y Seiri Rhyddion ddwywaith. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi derbyn cyngor gan gynghorydd cyfreithiol y Llywydd, David Lambert.

3.18 Daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oes tystiolaeth argyhoeddiadol o gamymddygiad gan y Seiri Rhyddion fel sefydliad, er gwaethaf amheuon y cyhoedd ynghylch eu gweithgareddau. Roedd yn anodd dadlau bod y Seiri Rhyddion yn sefydliad unigryw, a allai olygu trin ei aelodau yn wahanol i aelodau sefydliadau eraill. Canfuwyd hefyd nad oes un corff deddfwriaethol yn y DU yn meddu ar ofyniad tebyg i ofyniad y Cynulliad i ddatgan aelodaeth o'r Seiri Rhyddion.

3.19 Barn y Pwyllgor oedd bod gofynion presennol y Cynulliad, sy'n trin aelodau'r Seiri Rhyddion yn wahanol i aelodau sefydliadau eraill, yn anodd i'w hamddiffyn o ran egwyddor, a'u bod mewn perygl o gael eu herio'n llwyddiannus mewn llys barn. Cytunwyd y dylid eu disodli gan ofyniad sydd ar dir cyfreithiol mwy cadarn, ond a oedd yn dal i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelodau gofrestru eu bod yn aelodau o'r Seiri Rhyddion.

3.20 Mae'r Pwyllgor wedi argymell y dylid diwygio'r gofynion presennol fel ei bod yn ofynnol cofrestru aelodaeth o ystod ehangach o sefydliadau, gan gynnwys y Seiri Rhyddion. Byddai hyn hefyd yn debycach i'r gofyniad mae'r Cynulliad wedi ei osod ar awdurdodau lleol yng Nghymru.

3.21 Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Pwyllgor wedi cynnig y dylid creu rheol sefydlog newydd, ar gyfer 'Cofnodi Aelodaeth o Gymdeithasau', ac y dylid diwygio'r rheolau sefydlog a'r canllawiau perthnasol yn unol â hynny. Bydd y Rheol Sefydlog newydd yn nodi'r mathau o sefydliadau sydd angen cofnodi aelodaeth ohonynt. Rhoddir yr argymhellion hyn gerbron y Cynulliad yn ystod yr hydref.

3.22 Mae'r Pwyllgor o'r farn y bydd y newidiadau arfaethedig yn darparu system sydd ar dir cyfreithiol llawer cadarnach er mwyn gofrestru aelodaeth o'r Seiri Rhyddion a sefydliadau eraill. Bydd hefyd yn bodloni pryderon y cyhoedd ynghylch y mater hwn.

Yr Adolygiad o Weithdrefnau Safonau Ymddygiad

3.23 Ym mis Tachwedd 2001, penodwyd yr Athro Diana Woodhouse yn ymgynghorydd arbenigol i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Rhoddwyd iddi'r dasg o gynnal adolygiad cynhwysfawr o Weithdrefnau Safonau Ymddygiad o fewn y Cynulliad. Ar hyn o bryd, mae'r Athro Woodhouse yn Athro'r Gyfraith ac yn Bennaeth ar Adran y Gyfraith ym Mhrifysgol Oxford Brookes. Mae ganddi brofiad helaeth ym maes safonau ymddygiad, ac mae wedi gweithio mewn sawl senedd ledled gorllewin Ewrop ac Awstralia. Mae hi hefyd yn aelod cyfetholedig o Bwyllgor Safonau Ymddygiad Cyngor Dinas Rhydychen (Dirprwy Gadeirydd) a Chyngor Dosbarth Cherwell.

3.24 Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar bum prif faes: awdurdod y Pwyllgor; effeithiolrwydd y weithdrefn gwyno; rôl y Llywydd; rôl yr Ymgynghorydd Arbenigol ar Safonau Ymddygiad; a threfniadau cymharol mewn sefydliadau democrataidd eraill yn y DU. Mae'r Athro Woodhouse wedi paratoi'r adroddiad drafft cyntaf, a rhagwelir y bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor erbyn mis Tachwedd 2002.

Materion Eraill

3.25 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi ystyried a chynnig cyngor i'r Llywydd ac eraill ar ystod o faterion. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrinachedd adroddiadau Pwyllgorau a datgelu trafodion preifat Pwyllgorau, braint y Cynulliad, y defnydd a wneir o adnoddau'r Cynulliad, a gwrthdrawiadau posibl rhwng buddiannau mewn archwiliadau gan y

Pwyllgorau Pwnc. Mae rhai o'r materion hyn hefyd yn cael sylw o fewn yr Adolygiad o Weithdrefnau Safonau Ymddygiad.

4. Casgliadau'r Pwyllgor ar fater Safonau Moesegol (Rheol Sefydlog 16.1(v))

4.1 Fel rhan o'r Adolygiad o Weithdrefnau Safonau Ymddygiad, mae'r Pwyllgor hefyd wedi bod yn ystyried sut i adeiladu ar y safonau moesegol presennol er mwyn creu "Diwylliant o Ymddygiad Safonol" yn y Cynulliad. Serch hynny, fel y nodir uchod, dim ond un gŵyn a gyfeiriwyd at y Pwyllgor yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ef. O'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, does fawr o le i fod yn bryderus ynghylch safonau moesegol yr Aelodau.

4.2 Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol ei bod yn parhau i fod yn bosibl defnyddio gweithdrefnau ac adnoddau'r Cynulliad er mantais pleidiau gwleidyddol. Byddai'r Pwyllgor yn bryderus petai hyn yn effeithio ar ei allu i gyflawni ei swyddogaethau difrifol, yn enwedig wrth inni agosáu at etholiadau'r Cynulliad flwyddyn nesaf, pan y bydd angen bod yn arbennig o ofalus.

Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD
MIS TACHWEDD 2002

Annex A

RHEOL SEFYDLOG 16 - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Teitl a Chylch Gwaith

16.1 Bydd Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a fydd:

(i) yn ymchwilio i unrhyw gŵyn y cyfeirir ato gan y Llywydd fod Aelod heb gydymffurfio â rheol sefydlog 4 neu unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynglŷn â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill yr Aelodau, yn adrodd ar y gŵyn honno ac, os bydd yn briodol, yn argymell y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gŵyn, neu fod un o Ysgrifenyddion y Cynulliad heb gydymffurfio â gofynion paragraff 2.8;

(ii) yn ymchwilio i unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Llywydd fod Aelod heb gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynglŷn â safonau ymddygiad yr Aelodau neu'r canllawiau i'r Gweinidogion y bydd y Cynulliad wedi'u cymeradwyo yn unol â pharagraff 2.7, yn adrodd ar y gŵ yn honno ac, os bydd yn briodol, yn argymell y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gŵyn;

(iii) yn ystyried unrhyw fater o egwyddor ynglŷn ag ymddygiad yr Aelodau yn gyffredinol;

(iv) yn goruchwylio'r trefniadau ar gyfer llunio Cofrestr Buddiannau'r Aelodau, a ffurf a chynnwys y Gofrestr, a'r trefniadau ar gyfer cadw'r Gofrestr a sicrhau ei bod yn hygyrch; a

(v) yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar nifer y cŵ ynion a wnaed i'r Llywydd o dan (i) a (ii) a'r camau a gymerwyd, ac ar ei gasgliadau ynglŷn â safonau moesegol wrth gynnal busnes y Cynulliad.

Aelodaeth

16.2 Bydd y Cynulliad yn ethol Aelod i gadeirio'r Pwyllgor, ynghyd ag Aelodau eraill a etholir cyn belled ag y bo'n ymarferol i adlewyrchu cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad. Ni fydd y Llywydd yn aelod o'r Pwyllgor, ond bydd ganddo ef neu ganddi hi hawl i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod Pwyllgor, neu i gyflwyno papurau iddo, er mwyn tynnu ei sylw at unrhyw ystyriaethau y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

Cynghorydd Annibynnol

16.3 Bydd y Cynulliad yn penodi person nad yw'n Aelod o'r Cynulliad nac yn aelod o'i staff i roi cyngor a chymorth i'r Llywydd ar unrhyw fater ynglŷn ag ymddygiad yr Aelodau; a gall y Pwyllgor, yn ogystal â phenodi ei gynghorydd ei

hun fel y bo'n briodol o dan baragraff 8.14, wahodd y sawl a benodir gan y Cynulliad i ymchwilio i faterion ffeithiol sy'n codi o unrhyw fater dan ei sylw.

Cyfarfodydd

16.4 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod cyn gynted ag y bo modd ar ôl i gŵyn gael ei chyflwyno iddo gan y Llywydd; ac ar adegau eraill y bydd y cadeirydd yn ei gynnull.

16.5 Gall y Pwyllgor gyfarfod yn gyhoeddus neu'n breifat, ond wrth ystyried cŵyn, bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat oni fydd yn penderfynu fel arall. Os bydd ef neu hi'n gofyn am hynny, caniateir i unrhyw Aelod sydd neu a all fod yn destun ymchwiliad gan y Pwyllgor gyflwyno sylwadau llafar neu ysgrifenedig iddo a gall person arall (a all gymryd rhan yn y trafodion gyda chaniatâd y cadeirydd) fod yn bresennol gydag ef neu hi mewn gwrandawiadau llafar.

Adroddiadau

16.6 Os bydd y Pwyllgor wedi ymchwilio i gŵyn sydd wedi'i chyflwyno iddo gan y Llywydd, bydd yn adrodd i'r Cynulliad cyn gynted ag y bo modd ar ôl cwblhau'r adroddiad ar yr ymchwiliad. Gall y Pwyllgor adrodd i'r Cynulliad ar faterion eraill o fewn ei gylch gwaith o bryd i'w gilydd.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU: Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD

ADRODDIAD 01-2002- Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru
ar 11 Ionawr 2002 yn unol â Rheol Sefydlog 16.6

CWYN YN ERBYN PETER ROGERS AC

Diben a Chwmpas yr Adroddiad

1. Adroddiad yw hwn i'r Cynulliad gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o dan Reol Sefydlog 16.6 am gŵyn y mae wedi'i hystyried yn erbyn Peter Rogers AC. Yr oedd y gŵyn yn ymwneud â thorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

2. Mae Rheol Sefydlog 16(ii) yn darparu bod y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn:

> *ymchwilio i unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Llywydd fod Aelod heb gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynghylch safonau ymddygiad yr Aelodau, yn adrodd ar y gŵyn honno ac, os bydd yn briodol, yn argymell y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gŵyn…..*

Mae dyfyniad o'r Rheolau Sefydlog sy'n nodi cylch gwaith y Pwyllgor yn llawn i'w weld yn Atodiad A. Amgaeir rhestr o aelodau'r Pwyllgor yn Atodiad B.

Y Gŵyn

3. Cwynwyd bod Mr Rogers wedi torri'r Cod Safonau ar gyfer Aelodau Cynulliad trwy enwi a beirniadu swyddog o Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad Cenedlaethol yn gyhoeddus. Yr oedd Mr Rogers wedi rhyddhau datganiad i'r wasg ar 16 Ebrill 2001 yn galw am ymchwiliad i ymddygiad y swyddog, a hynny'n ddiymdroi.

4. Yn ôl y Cod Safonau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a fabwysiadwyd gan y Cynulliad ar 18 Mai 1999:

> *"Bydd Aelodau yn cydymffurfio â rheolau sefydlog, codau ymarfer a phrotocolau'r Cynulliad."*

Yn ôl y Protocol ar gyfer y Cysylltiadau Rhwng Aelodau'r Cynulliad a Staff y Cynulliad a fabwysiadwyd gan y Cynulliad ar 19 Mai:

> *"Bydd y cysylltiadau rhwng Aelodau'r Cynulliad a staff y Cynulliad yn rhai proffesiynol, a bydd y naill yn parchu'r llall."*

Crynodeb o Ymchwiliad y Pwyllgor

5. Deliwyd â'r gŵyn yn unol â'r weithdrefn a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Safonau ar 6 Gorffennaf 2000 ar ôl ymgynghori â holl aelodau'r Cynulliad.

6. Gwnaed y gŵyn i'r Llywydd ar 19 Ebrill 2001. Gofynnodd ef i'r Ymgynghorydd Annibynnol ar Safonau gynnal ymchwiliad rhagarweiniol er mwyn penderfynu a ddylai'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ystyried y gŵyn yn llawn. Casgliad yr Ymgynghorydd Annibynnol oedd ei bod yn gŵyn ffurfiol, wedi'i chyflwyno yn briodol gan yr achwynydd ar fater a oedd o fewn awdurdod y Pwyllgor. Yng ngoleuni'r adroddiad ar yr ymchwiliad rhagarweiniol, penderfynodd y Llywydd gyfeirio'r gŵyn at y Pwyllgor a gofyn i'r Ymgynghorydd Annibynnol gynnal ymchwiliad ffurfiol i gadarnhau ffeithiau'r achos.

7. Cyflwynwyd adroddiad gan yr Ymgynghorydd Annibynnol i'r Pwyllgor ar 5 Rhagfyr 2001. Anfonwyd copi o'i adroddiad at Mr Rogers hefyd. Cyfarfu'r Pwyllgor ar 12 Rhagfyr i ystyried y gŵyn. Eithriwyd y cyhoedd o drafodion y Pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 16.5. Cyflwynwyd sylwadau llafar gan Mr Rogers gerbron y Pwyllgor ac atebodd gwestiynau gan yr Aelodau. Mae'r Pwyllgor am gofnodi bod Mr Rogers wedi cydweithredu'n llwyr ag ef gydol y broses.

8. Argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau yng Nghymru ddiwedd gwanwyn 2001 oedd cefndir y gŵyn. Er mwyn atal y clwy rhag lledu, dim ond o dan amodau trwyddedu llym a oedd yn cael eu gosod gan y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd y caniateid symud anifeiliaid sy'n gallu dal y clwy. Yr oedd Swyddfeydd Rhanbarthol Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad yn gweithio o dan drefniant asiantaeth gyda'r Adran Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd yn ystod y cyfnod o dan sylw ac yr oeddent yn prosesu nifer mawr o geisiadau am drwyddedau i symud anifeiliaid, a hynny o dan amgylchiadau anodd iawn.

9. Yr oedd Peter Rogers yn ddigon parod i gydnabod i argyfwng clwy'r traed a'r genau gael effaith fawr arno, fel Aelod Cynulliad ar gyfer ei ardal ac fel ffermwr lleol. Soniodd am y cysylltiadau helaeth a gafodd â swyddogion y Cynulliad gydol y cyfnod hwnnw. Yn ddealladwy ddigon, yr oedd Mr Rogers ar bigau'r drain yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau, a dywedodd fod pethau wedi mynd i'r pen yn ystod Penwythnos y Pasg – a dyna a arweiniodd at ryddhau'r datganiad i'r wasg.

10. Yn ystod ymchwiliad yr Ymgynghorydd Annibynnol, yr oedd Mr Rogers wedi cadarnhau ei fod, at ei gilydd, yn ymwybodol o'r Cod Safonau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Cydnabu ymhellach nad oedd wedi gweithredu'n briodol trwy feirniadu swyddogion yn gyhoeddus mewn datganiad i'r wasg ac na ddylai fod wedi enwi'r swyddog o dan sylw. Yr oedd Mr Rogers wedi rhyddhau datganiad arall i'r wasg yn cydnabod hyn ac addawodd hefyd y byddai'n ysgrifennu at y swyddog i ymddiheuro'n ddiffuant iddo. Gwnaeth hynny ar 18 Gorffennaf 2001.

Casgliadau'r Pwyllgor

11. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd a'r sylwadau a wnaed gan Mr Rogers. Mae o'r farn bod Mr Rogers AC, wrth enwi a beirniadu un o swyddogion y Cynulliad yn gyhoeddus mewn datganiad i'r wasg, wedi torri'r Cod Safonau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

12. Y camau y byddai'r Pwyllgor yn eu hargymell fel rheol o dan yr amgylchiadau hyn fyddai ymddiheuriad diffuant gan Mr Rogers i'r swyddog o dan sylw. Fodd bynnag, mae Mr Rogers wedi derbyn nad oedd yn briodol iddo enwi swyddog yn gyhoeddus. Mae wedi rhyddhau datganiad arall i'r wasg i gydnabod hyn ac mae hefyd wedi ysgrifennu at y swyddog o dan sylw i ymddiheuro am yr hyn a wnaeth. O ganlyniad, ni theimlir bod unrhyw gamau pellach yn briodol.

13. Diben y weithdrefn gwyno yw diogelu pawb sy'n ymwneud â hi drwy beidio â datgelu enwau'r bobl o dan sylw. Gan fod y Pwyllgor wedi dyfarnu bod y gŵyn wedi'i chyfiawnhau, mae'r adroddiad hwn yn enwi Mr Rogers. Er hynny, ni ddatgelir enwau eraill, gan gynnwys enw'r achwynydd, er mwyn cadw cyfrinachedd.

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Ionawr 2002